


# Cynhadledd am y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol - 5 Mawrth 2025

Archebwch eich lle ar ein cynhadledd am y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol

Cyhoeddwyd gyntaf: 17 December 2024

Diweddariad olaf: 17 December 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle/cynhadledd-am-y-gymraeg-mewn-gofal-cymdeithasol am y fersiwn diweddaraf.

Archebwch eich lle ar ein cynhadledd am y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol

**Archebwch eich lle ar ein cynhadledd am y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol**

**5 Mawrth 2025, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno**

Ymunwch â ni ar gyfer ein cynhadledd Gymraeg gyntaf ar y thema 'Urddas, iaith a gofal'.

Mae'r gynhadledd am ddim i'w fynychu ac yn agored i unrhyw un sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Dewch draw i ddathlu gwaith ysbrydoledig, rhannu arfer da a chlywed am yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael i wasanaethau i ddarparu gofal cymdeithasol rhagorol yn y Gymraeg.

Dywedodd Gemma Halliday, ein Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros y Gymraeg: "Rydyn ni’n gyffrous i gynnal ein cynhadledd gyntaf sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.

“Bydd y gynhadledd yn gyfle i chi glywed gan eraill a gwneud cysylltiadau â phobl i ddatblygu eich gwybodaeth am ffyrdd o weithio'n ddwyieithog. Roedd sesiwn debyg yn gynharach yn y flwyddyn ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant ac fe wnaethon ni adeiladu ar hynny yn ein cynhadledd blynyddoedd cynnar a gofal plant diweddar.

"Rydyn ni eisiau helpu i roi'r hyder i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion Cymraeg y bobl maen nhw'n eu cefnogi. Mae gweithlu dwyieithog yn golygu y gall unigolion fynegi eu hunain yn eu dewis iaith, sy'n ein galluogi i ddeall beth sy'n bwysig yn llawer mwy effeithiol a chyfforddus."

Bydd mynychu'r gynhadledd yn cyfrif tuag at eich oriau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), os ydych chi wedi cofrestru gyda ni.

Rydyn ni wrthi yn trefnu rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau, a byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth yn fuan.

**Cofrestrwch yma**